

ADRODDIAD I'R CABINET 13 Chwefror 2018

Aelod Cabinet: Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid

Pwnc: Cyllideb 2018/19 a Strategaeth Ariannol 2018/19 – 2020/21

Swyddog Cyswllt: Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

Y Penderfyniad a geisir

(a) Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2018) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £242,862,930 ar gyfer 2018/19, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £175,127,330 a £67,735,600 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 4.8%.
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £8.389m yn 2018/19 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r adroddiad.

(b) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canol sy'n Rhan B, a mabwysiadu'r strategaeth sy'n rhan 32-34 o'r Cynllun.

Crynodeb

1. Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19, ac yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir y gyllideb flynyddol (Rhan A o'r adroddiad dilynol) o fewn cyddestun strategaeth ariannol tymor canolig (Rhan B), gan sicrhau fod y gyllideb yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.
2. Eleni, mae'r Cyngor yn elwa o'r cynllunio tymor canolig mewn blynyddoedd blaenorol, gan ein bod yn medru mantoli'r gyllideb heb orfod cymryd unrhyw benderfyniadau newydd sy'n torri gwasanaethau i'r dinesydd, er fod raid codi'r Dreth 4.8%.
3. Argymhellir codi'r Dreth 4.8% yn 2018/19 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fydd raid cynllunio i ddarganfod hyd at £20m o arbedion erbyn 2019/20 a 2020/21.
4. Wedi ymgynghori mewn cyfres o weithdai yn Ionawr/Chwefror, a gyda'r Pwyllgor Archwilio (8 Chwefror), mater i'r Cabinet yw ystyried y strategaeth ariannol 2018/19 – 2020/21, gan argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2018/19.

A) CYLLIDEB 2018/19

5. Gellir crynhoi'r gyllideb a gynigir ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn –

Arbedion i ddygymod gyda bwlch 2018/19

	£
Arbedion Effeithlonrwydd Cymeradwy	1,484,650
Toriadau Cymeradwy	368,460
Arbedion Effeithlonrwydd Pellach	896,430
Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	<u>2,749,540</u>

Sefydlu Cyllideb a lefel Treth 2018/19

	£
Cyllideb Sylfaenol 2017/18	231,299,720
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>14,312,750</u>
Gofynion gwario 2018/19 cyn Arbedion	245,612,470
llai Incwm Grant Llywodraeth	-175,127,330
llai Arbedion 2018/19	<u>-2,749,540</u>
Cynnyrch Treth Cyngor: codi 4.8%	<u>67,735,600</u>

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19

	£
Gofynion gwario 2018/19 cyn Arbedion	245,612,470
Cyfanswm Arbedion 2018/19	<u>-2,749,540</u>
Cyllideb Net 2018/19	<u>242,862,930</u>

I'w ariannu drwy -

Incwm Grant	175,127,330
Treth Cyngor	<u>67,735,600</u>
Cyllideb Net 2018/19	<u>242,862,930</u>

6. Erbyn 2018/19, bydd angen cynyddu ein gwariant i £245.6m er mwyn "sefyll yn llonydd", gan gynnwys £1.55m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (manylion o'r 'bidiau' yn Atodiad 1). Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau datblygol ar wahân i hyn, drwy Cynllun y Cyngor. Cyflwynir yma'r ymrwymïadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.
7. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd modd priodoli £2.75m o arbedion, ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 4.8%.
8. Cyn cyflawni adolygiad mwy trylwyr o'r Strategaeth Asedau, rydym wedi sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2018/19, yn unol â'r hyn a nodir yng nghymal 9.4, fydd yn golygu rhaglen o £8.389m yn 2018/19. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

B) STRATEGAETH TYMOR CANOLIG - CRYNODEB

9. Mae'r gwaith modelu (yn Rhan B o'r adroddiad manwl) yn cadarnhau bydd angen sicrhau bod ein trefniadau ni yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £20m o arbedion dros y ddwy flynedd 2019/20 a 2020/21. I'r perwyl hyn, argymhellir y dylid parhau gyda'r strategaeth arbedion cyfredol lle mae'r Cabinet am benderfynu ar dargedau gwahaniaethol i adrannau'r Cyngor, y penaethiaid adran yn cyflwyno arbedion posib i gwrdd â'r targedau hynny, a'r pwyllgorau craffu yn herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau i'w gweithredu'n flynyddol.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

10. Mae'r strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd ac yn argymell cynnydd yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrowiad lleiaf ar ein pobl.

Ystyriaethau perthnasol

11. Mater i'r Cyngor yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2018/19 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol.

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol**Swyddog Monitro:**

Er mai mater i'r Cyngor Llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

Mae'r strategaeth ariannol ar y llaw arall yn fater i'r Cabinet ei benderfynu ond wrth wneud hynny byddai'n ddymunol iddo fod yn gynhwysol ac ymgynghori gyda'r Cyngor. 'Rwyf yn cefnogi'r bwriad i wneud hynny.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.